

Cyfarfod o Fwrdd Trafnidiaeth Cymru

10:30 – 16:00; 18 Hydref 2018

Prif Swyddfa Trafnidiaeth Cymru, Tŷ Southgate

Cofnodion

Yn bresennol:

Nick Gregg (NED a Chadeirydd) (NG)

James Price (CEO) (JP)

Sarah Howells (NED) (SH)

Alison Noon-Jones (NED) (ANJ)

Nikki Kemmery (NED) (NK)

Heather Clash (TrC) (HC)

Tracey Chapman (Ysgrifenyddiaeth) (TC)

Roedd y sylwedyddion canlynol o Lywodraeth Cymru yn bresennol ar gyfer Rhan A a Rhan C y cyfarfod:

Simon Jones (Sylwedydd LIC) (SJ)

Jenny Lewis (Sylwedydd LIC) (JL)

Roedd y sylwedyddion canlynol o Lywodraeth Cymru yn bresennol ar gyfer Rhan A y cyfarfod:

Laura Harrison

Micaela Woodhead

Roedd y mynychwyr canlynol o Trafnidiaeth Cymru yn bresennol ar gyfer eitemau penodol o'r agenda:

Geoff Ogden (Swyddog Gweithredol) (GO),

Alexia Course (Swyddog Gweithredol)

(AC), Karl Gilmore (Swyddog Gweithredol) (KG) Lewis Brencher (LB)

Ymddiheuriadau

Gareth Morgan (Ysgrifenyddiaeth) (GM)

Rhan A: Cyfarfod Llawn y Bwrdd

Hysbysiad o Cworwm

1. Gan fod cworwm yn bresennol, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod wedi agor. Cadarnhaodd y Cadeirydd y rhoddwyd hysbysiad am y cyfarfod i bob Cyfarwyddwr oedd â hawl i dderbyn hysbysiad o'r fath.

Ymddiheuriadau

2. Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldebau

Gwrthdaro buddiannau

3. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw wrthdaro buddiannau newydd i'w datgan, yn enwedig a ninnau bellach ar waith fel gweithredwr gwasanaethau trenau. Cadarnhaodd HC ei bod hi wedi diweddarau'r gofrestr gwrthdaro buddiannau er mwyn adlewyrchu newid mewn amgylchiadau.
4. Dywedodd JP y byddai LB yn ymuno â'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel arweinydd dros dro y maes cyfathrebu ledled Gwasanaethau Corfforaethol Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Gwasanaethau Trenau TrC. Nodwyd y byddai'n wynebu gwrthdaro mewn perthynas â materion cytundebol. Cytunwyd i baratoi protocol i ddiogelu LB a'r ddau sefydliad.
5. Pan mae'r Pwyllgorau'n cyfarfod ac yn cynnwys pobl o ODP, cytunodd y Bwrdd fod angen rheoli unrhyw wrthdaro yn ofalus.
6. Fe wnaeth NG a'r Bwrdd longyfarch JP, y tîm rheoli a gweddill y tîm gan gynnwys Llywodraeth Cymru am helpu i drosglwyddo'r gwasanaeth trenau yn llwyddiannus a di-dor.

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

7. Cytunodd y Bwrdd ar gofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018. Cafwyd diweddariadau gan aelodau'r Bwrdd a chytunwyd y gellid cau nifer o'r camau gweithredu.

Cofnodion cyfarfod 2 Gorffennaf 2018

8. Dirprwywyd JP i lofnodi'r Cofnodion terfynol.
9. HC / JP i fynd trwy gofnodion y dyfodol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd am sylwadau **[Cam gweithredu]**

Eitem 2: Iechyd a Diogelwch

Eitem 2a: Rheoli diogelwch

Rhoddodd NK enghraifft o achos llys gyda gweithredwr iard nwyddau yn Tyneside lle'r oedd criw o bobl ifanc wedi tresmasu a dod i gysylltiad ag offer trydanol byw.

Gofynnodd NG oes yna rywun yn cadw golwg o ble mae'r manau peryclaf i'r cyhoedd ddod i gysylltiad â'r rhwydwaith heblaw am orsafoedd a chroesfannau, a chytunwyd i holi Network Rail a oes ganddyn nhw gofnodion / a pha fesurau lliniaru sydd o'u cwmpas **[Cam gweithredu]**.

Eitem 2b: Perfformiad diogelwch

Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi papur y Bwrdd sy'n amlinellu'r mesurau lechyd a Diogelwch lefel uchel y cytunwyd arnynt fel rhan o waith monitro perfformiad y gwasanaethau trenau, gan gadarnhau y byddant yn cael eu mireinio a'u datblygu dros amser.

Gofynnodd NG a oes gan unrhyw un restr o'r holl asedau rydym yn gweithredu gwasanaethau arnynt ar hyn o bryd. Cadarnhaodd JP y bydd map llwybr yn dangos sawl milltir o gledrau, croesfannau, gorsafoedd, depos cilffyrdd/seidins ac ati **[Cam gweithredu: GM i greu pecyn gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd sy'n cynnwys Map Llwybr Cymru ac ystadegau allweddol Gwasanaethau Trenau TrC, pecyn i gynnwys crynodeb o berfformiad]**.

Eitem 3: Diweddariad strategol/datblygiad

Eitem 3a: Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol

Diolchodd JP i'r Bwrdd am eu cymorth ac i'r tîm am eu gwaith caled yn helpu i drosglwyddo'r gwasanaeth yn llwyddiannus. Gofynnodd NG a ddylai'r Bwrdd ddiolch neu gydnabod rhywun yn benodol. **[Cam gweithredu: JP i ddrafftio nodyn i NG anfon gair o ddiolch ar ran y Bwrdd].**

Cyflwynodd JP grynodedb o gynnwys Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol a nodwyd mater hawlildio ar gyfer ODP yn ogystal â'r amserlen gwblhau. Cadarnhaodd ein bod ni wedi paratoi ar gyfer rheoli contract y mis cyntaf, gyda chyfnod pontio di-dor o un cwmni i'r llall.

Aeth y lansiad ffurfiol rhagddo yn ôl y bwriad ac roedd gweithgarwch yn y cyfryngau'n dda. **[Cam gweithredu: Sicrhau bod cyfrif Twitter KeolisAmey yn dirwyn i ben].**

Eitem 3b: Cytuno ar Gylch Gorchwyl yr Isbwyllgorau a'u cymeradwyo

Archwilio a Risg – cadarnhaodd NG fod MD wedi drafftio'r Cylch Gorchwyl a gyflwynwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Bwrdd. **[Cam gweithredu – TC i anfon y Cylch Gorchwyl at HC]** I ddechrau, bydd NG yn cadeirio'r ARC hyd nes y bydd rhywun wedi'i ddewis yn lle MD.

Cwsmeriaid a Chyfathrebu – cadarnhaodd SH fod y Cylch Gorchwyl wedi'i ddrafftio ac y byddai SH yn cyfarfod â JP yn yr wythnos yn dechrau ar 22 Hydref i greu'r fersiwn derfynol. Roedd cyfarfod cynta'r Isbwyllgor wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd.

Dywedodd NG ei bod hi'n bwysig cael adborth gan y grwpiau cynrychioliadol i'r Isbwyllgorau. Mae'r lefelau presenoldeb yn hollbwysig a dylai'r uwch-reolwyr fynychu - roedd y Bwrdd am bwysleisio eu bod nhw'n ystyried mai gwaith ymgysylltu ar lefel uwch-reolwyr yw'r rhain. **[Cam gweithredu: JP i anfon nodyn at TrC Corfforaethol a Gwasanaethau Trenau TrC].**

Isbwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles - Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 26 Medi 2018 dan gadeiryddiaeth Nikki Kemmery, NED. Yn y cyfarfod hwn, cytunwyd ar Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn ogystal â'r datganiad Iechyd, Diogelwch a Lles. Cynhaliwyd trafodaeth ar fetrigau iechyd a diogelwch ar gyfer adroddiad y Bwrdd ac adolygiad o'r Pwyllgor yn y dyfodol. Mae dyddiadau cyfarfodydd chwarterol yn cael eu trefnu ar gyfer 2019.

Isbwyllgor Adnoddau Dynol – mae ANJ wedi drafftio'r Cylch Gorchwyl a bydd yn ymuno â NK i gytuno ar y fformat. O ran yr aelodau, y bwriad yw cael cynrychiolydd undeb yn ogystal â Chyfarwyddwr AD, GO a chynrychiolydd Iechyd a Diogelwch ar sail ad-hoc.

Cytunwyd i gyflwyno Cylch Gorchwyl terfynol pob is-bwyllgor i'w mabwysiadu'n ffurfiol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Eitem 3c: Cyllid

Diolchodd NG i HC am y wybodaeth ariannol fanwl a gyflwynwyd i'r Bwrdd.

Cyflwynodd HC sefyllfa ariannol derfynol Trafnidiaeth Cymru i'r Bwrdd, gan fynd drwy'r prif benawdau.

Eitem 3d: Cydymffurfiaeth/Perfformiad Llywodraethu

Cyflwynodd HC drosolwg cyflym o'r cyflwyniadau diweddar a gafodd ar apiau cyfrifiadurol posib i'r Bwrdd dan y fframwaith caffael, a'i bod hi wrthi'n ystyried pecynnau meddalwedd eraill. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn y dyfodol.

Eitem 4: Unrhyw fater arall

Rhoddodd JP drosolwg o strwythur cyfredol TrC, gan amlinellu'r rolau sydd angen eu llenwi o hyd, a chadarnhaodd bod pob maes yn gwneud cynnydd da. Cytunodd y Bwrdd ar nifer arfaethedig swyddi uwchreoli.

[Cam gweithredu: NG a JP i gyfarfod â GWR]

Daeth Rhan A y cyfarfod i ben am 1330.

Rhan C: Sesiwn agored

Ymunodd AC, LB a KG y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Sesiwn Agored ar agor a chrosawu pawb yno. Ar ran y Bwrdd, diolchodd NG i'r Tîm Gweithredol am yr holl waith a gyflawnwyd hyd yma i sicrhau bod y busnes ar waith.

Eitem 1a – Cyflwyniad ar y system drafndiaeth ac integreiddio

Darparodd SJ drosolwg o'r heriau sy'n wynebu'r rhwydwaith trafndiaeth dros y blynyddoedd a'r degawdau nesaf, a'r ymatebion polisi a gweithredol a all fod yn ofynnol gan TrC.

Ymunodd GO â'r cyfarfod am 3:10pm

Eitem 1e – Grid Cyfathrebu

Siaradodd LB am y Grid Cyfathrebu, cynllun 30 diwrnod i bob pwrpas – cyfuniad o'r cyfleoedd cyfathrebu sy'n barod nawr yn ogystal â'r cyfleoedd tymor canolig.

Cadarnhaodd LB fod yr achlysur lansio wedi mynd yn dda gyda pheth wmbredd o sylw ar y cyfryngau gyda chyrhaeddiad o tua 6 miliwn.

Amlinellodd LB y gwaith marchnata sydd ar droed ar hyn o bryd, ac y byddwn yn gweld ymgyrch gwsmeriaid cyn hir.

Gadawodd LB y cyfarfod wedi'r eitem hon.

Eitem 1b: Diweddariad ar Symudiadau

Cadarnhaodd AC fod y pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth y gallai'r Bwrdd ei darllen yn eu hamser eu hunain. Dywedodd fod y penwythnos wedi mynd rhagddo'n dda iawn, heb achosion o ddamweiniau staff, anafiadau na digwyddiadau diogelwch.

Cafodd nifer o unedau eu difrodi gan y storm, a bu'n rhaid eu tynnu o'r gwasanaeth – ond er gwaethaf hyn, roedd perfformiad yn gwella.

Hoffai NG weld adroddiad strwythuredig ar berfformiad yn ystyried amseroedd cywir, ppm, diogelwch ac ati, ar draws y rhwydwaith cyfan a fesul lein. **[Cam gweithredu AC: i gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd]**

Eitem 1c: Ymgysylltu staff â Gwasanaethau Trenau TrC

Amlinellodd AC gynnwys y pecyn sleidiau am y cynllun ymgysylltu a ddatblygwyd gyda'r tîm Gwasanaethau Trenau a beth a gyflawnwyd ar gyfer diwrnod 1 o ran cael pobl yn barod ar gyfer y cyfnod pontio.

Mae'r adran Unrhyw Fater Arall yn cynnwys pecyn cyflwyno i Gytundeb Grant ODP **[Cam gweithredu: TC i anfon fersiwn electronig ymlaen at aelodau'r Bwrdd]**

[Cam gweithredu KG – yng nghyfarfod nesa'r Bwrdd, darparu trosolwg 20 munud o gynlluniau a gwaith uwchraddio CVL]

Eitem 1g: Risgiau a chamau lliniaru allweddol

Adolygwyd a thrafodwyd y Matrics Risgiau, a chytunwyd y byddem yn gwirio unrhyw risgiau posib a allai'n hatal rhag rhedeg gwasanaeth e.e, rhwydwaith, systemau tocynnau ac ati. **[Cam gweithredu: GO]**

